Rheolau

1. Rhaid i bob Ymgeisydd fod yn byw yn y DU. Rhaid i chi fod rhwng 11 a 16, blynyddoedd ysgol 7, 8, 9 neu 10 ym mis Gorffennaf 2010.
2. Rhaid i chi gael caniatâd eich rhiant neu warcheidwad er mwyn cystadlu.
3. Mae'r cwmni yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth, cyfle cyfartal a thriniaeth deg a rhaid i'r Ymgeisydd fodloni Rondo Media cyf ("y Cwmni") ei f/bod yn hapus ac yn medru cymryd rhan yn y Rhaglen. Bydd hyn yn rhan hanfodol o'r broses ddethol (gweler isod).
4. Nid oes hawl gan aelodau staff S4C, y Cwmni a/neu eu teuluoedd agos nac unrhyw berson neu gwmni arall sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Rhaglen i gymryd rhan yn y Rhaglen
5. Gan fydd y cystadleuydd yn ymddangos ar raglen Gymraeg ar S4C bydd rhaid i chi fedru siarad Cymraeg.
6. Rhaid i Ymgeiswyr sy'n dymuno i fod yn gystadleuwr ar y Rhaglen ddanfon ffurflen gais at y Cwmni erbyn 17.00 ar 11 Mehefin 2010. Gellir canfod y ffurflen gais ar s4c.co.uk/mentro, drwy ebostio gruff@rondomedia.co.uk, neu drwy ofyn i'ch athro / athrawes cerdd neu ddrama eich ysgol / grŵp i anfon cais ar eich rhan.
7. Dylid cysylltu â'r Cwmni/dychwelyd y ffurflen gais at y Cwmni wrth law, yn y post neu'n electronig drwy ddefnyddio'r llinellau cyswllt yma:
   Post/wrth law: **Mentro, 60 Severn Grove, Pontcanna, Caerdydd, CF11 9E**
   E-bost: **gruff@rondomedia.co.uk**
   Nid yw S4C na'r Cwmni yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gais neu wybodaeth sy'n mynd ar goll yn y post neu sy'n methu cyrraedd y Cwmni drwy'r llinellau cyswllt ar, neu cyn, y Dyddiad Cau. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yn unig yw sicrhau ei f/bod yn cysylltu â'r Cwmni ar, neu cyn, y Dyddiad Cau.
8. Wedi i'r Cwmni ystyried y ffurflenni cais a dderbynnir gan y Cwmni erbyn y Dyddiad Cau, bydd y Cwmni yn dewis rhestr fer o ymgeiswyr (a ddewiswyd gan y Cwmni yn ei disgresiwn ei hun). Bydd y Cwmni yn cysylltu â'r rheini ar y rhestr fer ar 11 Mehefin 2010 ac yn trefnu diwrnod ffilmio rywbryd yn ystod mis Mehefin er mwyn dewis yr unigolion / grwpiau fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen. Ni chysylltir ag ymgeiswyr sydd heb eu dewis ar gyfer y rhestr fer.
9. O'r ymgeiswyr sydd wedi eu dethol ar gyfer y rhestr fer, bydd cystadleuwyr terfynol yn cael ei dewis a dethol i gymryd rhan yn y Rhaglen. Bydd y Cwmni yn cysylltu â'r Ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn eu hysbysu eu bod yn gystadleuwyr.
10. Bydd y cystadleuwyr yn cael eu dewis gan banel sydd wedi ei ddewis gan y Cwmni, a bydd dewis y panel yn derfynol.
11. Bydd cytundeb safonol yn cael ei ddanfon at bob cystadleuydd sy'n cael eu dewis ar gyfer y Rhaglen i'w arwyddo cyn i'r cystadleuydd gymryd rhan yn y Rhaglen. Mae'n rhag-amod i'r cystadlu a chymryd rhan yn y Rhaglen bod pob cystadleuydd yn arwyddo'r cytundeb safonol a'i ddanfon yn ôl at y Cwmni erbyn y dyddiad a benodwyd. Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i wahardd unrhyw gystadleuydd rhag cymryd rhan yn y Rhaglen os yw'r dogfennau cytundebol perthnasol heb eu harwyddo erbyn y dyddiad penodedig ac/neu os darganfyddir nad yw'r cystadleuydd yn gymwys i gymryd rhan yn y Rhaglen.
12. Rhaid i bob cystadleuydd fod ar gael ar gyfer ffilmio'r Rhaglen yn ôl yr amserlen sydd wedi ei gyhoeddi gan y Cwmni. Os yw dyddiadau ffilmio yn gwrthdaro gydag ymrwymiadau eraill y cystadleuydd, cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau caniatâd unrhyw berson arall perthnasol i'w h/absenoldeb o waith neu fan arall er mwyn cymryd rhan yn y Rhaglen. Os nad yw unrhyw gystadleuydd ar gael yn ystod unrhyw adeg o'r cyfnod cynhyrchu, mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i wahardd y fath gystadleuydd rhag cymryd rhan yn y Rhaglen.
13. Dewisir y cystadleuydd buddugol drwy bleidlais gynulleidfa o gyfoedion mewn ysgol o ardal wahanol i'r cystadleuwyr.
14. Yn achos unrhyw anghydfod yn ymwneud â'r gystadleuaeth, y canlyniad, neu unrhyw agwedd arall o'r Rhaglen, bydd penderfyniad y Cwmni yn derfynol.
15. Bydd y cystadleuydd buddugol yn ennill Tlws Mentro yn wobr.
16. Bydd yr enillydd yn gyfrifol am bob treth, yswiriant, trefniadau teithio, arian gwario a threuliau eraill (gan gynnwys prydau neu dreuliau personol) y mae'r cystadleuwyr yn mynd iddo yn sgil cymryd rhan yn y Rhaglen a/neu yn gysylltiedig â'r wobr oni bai y nodir fel arall yn benodol.
17. Ni ellir cyfnewid neu drosglwyddo'r wobr, ac ni fydd modd hawlio swm ariannol yn gyfnewid amdani.
18. Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i gyfnewid y wobr, neu unrhyw ran ohoni, am wobr o'r un gwerth ariannol, neu o werth ariannol uwch, a bydd penderfyniad y Cwmni a/neu S4C yn hyn o beth yn derfynol.
19. Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i ddiwygio'r rheolau hyn neu i ganslo, addasu neu ddiwygio'r Rhaglen ar unrhyw adeg o ganlyniad i ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.
20. Bydd Gwybodaeth Bersonol y byddwch yn ei ddarparu i Rondo yn y ffurflen gais neu unrhyw ran arall o'r broses gastio (gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i wybodaeth am eich iechyd yn cael ei ddefnyddio wrth ddewis cyfranwyr posib ar gyfer y Rhaglen er mwyn gallu datblygu a chynhyrchu'r Rhaglen.
21. Ni fyddwn yn cyhoeddi eich cyfraniad na'ch manylion cyswllt i unrhyw drydydd parti.
22. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gydag aelodau'r tîm cynhyrchu ar gyfer y Rhaglen, a staff perthnasol S4C.
23. Bydd y Cwmni Cynhyrchu yn sicrhau fod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer cynhyrchu'r Rhaglen yn cael ei defnyddio mewn ystyriaeth o'r Ddeddf Diogelu Data 1998.
24. Mae'r Cwmni ac S4C yn gwahardd unrhyw atebolrwydd i'r graddau llawn a ganiateir gan y gyfraith am unrhyw golled, difrod, anaf neu siomedigaeth a ddioddefir gan unrhyw ymgeisydd, sy'n codi o'r ffaith ei fod ef, neu ei bod hi, wedi cymryd rhan yn y Rhaglen, neu sy'n digwydd i'r buddugol o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi derbyn y wobr.
25. Gellir cysylltu â Rondo Media gydag unrhyw ymholiadau drwy ffonio 02920 223456 neu e-bostio gruff@rondomedia.co.uk